



**Adroddiad Blynyddol
y
Llywodraethwyr i
Rieni**

2018-2019

Annwyl Rien / Warchodwyr,

Braf ydy derbyn y cyfle hwn i fynegi rhai sylwadau at Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol. Llynedd oedd y flwyddyn cyntaf i mi ymgymryd â rôl Cadeirydd y Corff Llywodraethol, yr wyf yn ymfalchio yn llwyddiannau niferus y disgyblion a'r staff.

Y mae niferoedd y disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol yn cynyddu, gan fynd o 745 o ddisgyblion pan agorwyd yr ysgol i 909 erbyn Medi 2019. Y mae hyn yn dyst i lwyddiant holl ymdrechion y staff ar draws yr ystod oed wrth baratoi profiadau diddorol a buddiol i'r disgyblion, boed yn academiaidd neu yn allgyrsiol.

Braf nodi llwyddiant nodedig disgyblion blwyddyn 13 eleni eto. Bu cynnydd dymunol iawn yn niferoedd y disgyblion a enillodd 3 gradd A*-A yn ogystal a pherfformiad arbennig ym Magloriaeth Cymru. Dymuna'r Pennaeth longyfarch yr holl ddisgyblion a dymuna bob llwyddiant iddynt i'r dyfodol. Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau TGAU yr ysgol eleni, rhaid diolch i'r athrawon, y disgyblion a'u rhieni am eu gwaith diflino i sicrhau llwyddiant i'r ysgol. Cafwyd perfformiad cryf ar draws yr holl bynciau craidd gyda chynnydd dymunol ar draws mesurau perfformiad gydag 81% o ddisgyblion yn cyflawni'r trothwy lefel 2 a 100% o'r disgyblion yn llwyddiannus wrth gyflawni'r dangosydd TGAU Lefel 1. Croesawyd mwyafrif y flwyddyn yn ôl i'r chweched dosbarth i astudio amrywiaeth eang o bynciau academiaidd a galwedigaethol.

Yn ddi-os, un o uchafbwyntiau y llynedd i'r Corff Llywodraethol oedd gweld llwyddiant ysgubol yr ysgol yn ystod arolwg Estyn. Dyfarnwyd rhagoriaeth i'r ysgol ym meysydd Lles ac Agweddau at Ddysgu ynghyd â Gofal, Cymorth ac Arweiniad. Dyfarnwyd da i'r tri maes arolygu arall. Yn ôl yr adroddiad Estyn, *'Mae aelodau'r corff llywodraethol yn frwdfrydig ac yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau ac maent yn ymwneud yn uniongyrchol ag agweddau penodol ar waith bob dydd yr ysgol. Canlyniad hyn yw bod ganddynt ddealltwriaeth dda, ar y cyfan, o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.'*

Mae gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd pob llwyddiant a braf ydy gweld Cyfeillion Ysgol Bro Teifi yn mynd o nerth i nerth. Wrth edrych tuag at y dyfodol, y mae'r Llywodraethwyr yn falch wrth i'r ysgol ddyfnhau'r cydweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth gan ddod yn ganolfan hyfforddi darpar athrawon. Drwy hyn, bydd yr ysgol yn medru dylanwadu ar y to newydd o athrawon yma yng Ngorllewin Cymru.

I gloi, dymunaf ddiolch i'm cyd-lywodraethwyr am eu hymroddiad a'u gwaith caled dros y flwyddyn diwethaf.

Yn gywir,

Mr Gethin Jones (Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Bro Teifi)

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 2018-2019

ADRAN 1 – CRYNODEB O'R ADRODDIAD

1. **Hysbyseb o Gyfarfod Blynyddol Rhieni/Llywodraethwyr i ddod** *(os caiff ei gynnal o dan Adran 94 o Ddeddf Trefniadaeth Safonau Ysgolion (Cymru) 2013): Ddim yn berthnasol

2. **Gwybodaeth am seddi gwag Rhieni Llywodraethwyr / etholiadau sydd i ddod:**

Nifer y seddi gwag ar gyfer Rhiant Lywodraethwyr presennol	1
Dyddiad(au) o sedd(i) (g)wag ar gyfer Rhiant Lywodraethwr	

3. Data Cymharol Disgyblion Oed Cynradd:

CYFNOD SYLFAEN

(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)

		N	D	W	Z	S	G	1	2	3	4	5	6	A
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	12.5	87.5	0.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	14.9	85.1	0.0
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg)	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	21.9	43.8	34.4	0.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.3	55.3	40.4	0.0
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Datblygiad mathemategol	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	21.9	43.8	34.4	0.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.3	51.1	44.7	0.0

DCS **

2019	78.1
2018	95.7

	N	D	W	Z	S	G	1	2	3	4	5	6	A
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	4	28	0
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	7	14	11	0
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Datblygiad mathemategol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	7	14	11	0

DCS **

Ysgol	25
-------	----

Nifer y disgyblion = 32

CYFNOD ALLWEDDOL 2

		N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6+	4+
Saesneg	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	63.0	37.0	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	6.1	55.1	38.8	0.0	93.9
Llafaredd	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.4	61.1	31.5	0.0	92.6
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.0	51.0	46.9	0.0	98.0
Darllen	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	64.8	35.2	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	6.1	55.1	38.8	0.0	93.9
Ysgrifennu	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	20.4	51.9	27.8	0.0	79.6
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	14.3	51.0	34.7	0.0	85.7
Cymraeg Iaith Gyntaf	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	5.6	1.9	63.0	29.6	0.0	92.6
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.0	8.2	57.1	32.7	0.0	89.8
Llafaredd	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	5.6	5.6	57.4	31.5	0.0	88.9
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.0	6.1	55.1	36.7	0.0	91.8
Darllen	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	5.6	0.0	64.8	29.6	0.0	94.4
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.0	8.2	55.1	34.7	0.0	89.8
Ysgrifennu	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	5.6	20.4	48.1	25.9	0.0	74.1
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.0	14.3	51.0	32.7	0.0	83.7
Mathemateg	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	66.7	33.3	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	6.1	51.0	42.9	0.0	93.9
Gwyddoniaeth	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	3.7	64.8	31.5	0.0	96.3
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	6.1	46.9	46.9	0.0	93.9

Dangosydd Pwnc Craidd **

2019	96.3
2018	93.9

CYFNOD ALLWEDDOL 2

	N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6+	Nifer y disgyblion
Saesneg	0	0	0	0	0	0	0	0	34	20	0	54
Llafaredd	0	0	0	0	0	0	0	4	33	17	0	54
Darllen	0	0	0	0	0	0	0	0	35	19	0	54
Ysgrifennu	0	0	0	0	0	0	0	11	28	15	0	54
Cymraeg Iaith Gyntaf	0	0	0	0	0	0	3	1	34	16	0	54
Llafaredd	0	0	0	0	0	0	3	3	31	17	0	54
Darllen	0	0	0	0	0	0	3	0	35	16	0	54
Ysgrifennu	0	0	0	0	0	0	3	11	26	14	0	54
Mathemateg	0	0	0	0	0	0	0	0	36	18	0	54
Gwyddoniaeth	0	0	0	0	0	0	0	2	35	17	0	54

Dangosydd Pwnc Craidd **

2019	52
------	----

Nifer y disgyblion = 54

4. Data Perfformiad Disgyblion Oed Uwchradd:

CYFNOD ALLWEDDOL 3

(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)

Ceredigion
Ysgol Bro Teifi

		N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6	7	8	EP	5+
Saesneg	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	8.1	17.4	38.4	36.0	0.0	0.0	91.9
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.3	0.0	7.9	22.4	32.9	35.5	0.0	0.0	90.8
Llafaredd	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.3	3.5	18.6	41.9	31.4	2.3	0.0	94.2
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.3	1.3	6.6	18.4	36.8	35.5	0.0	0.0	90.8
Darllen	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.2	7.0	17.4	39.5	34.9	0.0	0.0	91.9
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.3	1.3	9.2	28.9	25.0	34.2	0.0	0.0	88.2
Ysgrifennu	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	11.6	16.3	36.0	36.0	0.0	0.0	88.4
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.3	0.0	5.3	26.3	34.2	32.9	0.0	0.0	93.4
Cymraeg Iaith Gyntaf	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.3	27.9	47.7	19.8	2.3	0.0	97.7
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.3	0.0	3.9	30.3	50.0	13.2	1.3	0.0	94.7
Llafaredd	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.3	23.3	46.5	26.7	1.2	0.0	97.7
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.3	0.0	1.3	27.6	50.0	18.4	1.3	0.0	97.4
Darllen	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	5.8	26.7	47.7	17.4	2.3	0.0	92.1
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.3	0.0	6.6	28.9	48.7	14.5	0.0	0.0	94.2
Ysgrifennu	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.3	36.0	44.2	16.3	1.2	0.0	97.7
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.3	0.0	14.5	23.7	48.7	10.5	1.3	0.0	84.2
Mathemateg	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.3	30.2	39.5	24.4	3.5	0.0	97.7
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.3	0.0	3.9	25.0	38.2	30.3	1.3	0.0	94.7
Gwyddoniaeth	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.3	20.9	44.2	32.6	0.0	0.0	97.7
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.3	0.0	1.3	18.4	51.3	27.6	0.0	0.0	97.4

Dangosydd Pwnc Craidd **

2019	96.5
2018	92.1

		N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6	7	8	EP	5+
Cymraeg Ail Iaith	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Iaith Dramor Fodern	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	23.3	20.9	33.7	22.1	0.0	0.0	76.7
	2018	0.0	2.6	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	13.2	27.6	27.6	28.9	0.0	0.0	84.2
Dylunio a Thechnoleg	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.2	24.4	52.3	22.1	0.0	0.0	98.8
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	34.2	48.7	17.1	0.0	0.0	100.0
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	9.3	76.7	14.0	0.0	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.9	73.7	18.4	0.0	0.0	100.0
Hanes	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	15.1	48.8	32.6	3.5	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.3	0.0	17.1	46.1	34.2	1.3	0.0	98.7
Daeryddiaeth	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	20.9	43.0	32.6	3.5	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.3	1.3	23.7	44.7	27.6	1.3	0.0	97.4
Celf a Dylunio	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	22.1	38.4	39.5	0.0	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	23.7	36.8	39.5	0.0	0.0	100.0
Cerddoriaeth	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	44.2	27.9	27.9	0.0	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	23.7	48.7	27.6	0.0	0.0	100.0
Addysg Gorfforol	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.2	26.7	51.2	20.9	0.0	0.0	98.8
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.6	18.4	52.6	26.3	0.0	0.0	97.4

Ceredigion
Ysgol Bro Teifi

	N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6	7	8	EP	Nifer y disgyblion
Saesneg	0	0	0	0	0	0	0	0	7	15	33	31	0	0	86
Llafaredd	0	0	0	0	0	0	0	2	3	16	36	27	2	0	86
Darllen	0	0	0	0	0	0	0	1	6	15	34	30	0	0	86
Ysgrifennu	0	0	0	0	0	0	0	0	10	14	31	31	0	0	86
Cymraeg Iaith Gyntaf	0	0	0	0	0	0	0	0	2	24	41	17	2	0	86
Llafaredd	0	0	0	0	0	0	0	0	2	20	40	23	1	0	86
Darllen	0	0	0	0	0	0	0	0	5	23	41	15	2	0	86
Ysgrifennu	0	0	0	0	0	0	0	0	2	31	38	14	1	0	86
Mathemateg	0	0	0	0	0	0	0	0	2	26	34	21	3	0	86
Gwyddoniaeth	0	0	0	0	0	0	0	0	2	18	38	28	0	0	86

Dangosydd Pwnc Craidd **

2019	83
------	----

Nifer y disgyblion = 86

	N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6	7	8	EP	Nifer y disgyblion
Cymraeg Ail Iaith	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Iaith Dramor Fodern	0	0	0	0	0	0	0	0	20	18	29	19	0	0	86
Dylunio a Thechnoleg	0	0	0	0	0	0	0	0	1	21	45	19	0	0	86
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	0	0	0	0	0	0	0	0	0	8	66	12	0	0	86
Hanes	0	0	0	0	0	0	0	0	0	13	42	28	3	0	86
Daearyddiaeth	0	0	0	0	0	0	0	0	0	18	37	28	3	0	86
Celf a Dylunio	0	0	0	0	0	0	0	0	0	19	33	34	0	0	86
Cerddoriaeth	0	0	0	0	0	0	0	0	0	38	24	24	0	0	86
Addysg Gorfforol	0	0	0	0	0	0	0	0	1	23	44	18	0	0	86

CYFNOD ALLWEDDOL 4

Ysgol Bro Teifi

2019

Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol (1)

Rhif ALI/Ysgol

667 / 5502

Disgyblion yn blwyddyn 11

Nifer y disgyblion yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2019 84

Sgôr pwyntiau cyfartalog fesul disgybl:

	Mesur Capio 9 (interim)	Y mesur llythrennedd	Y mesur rhifedd	Y mesur gwyddoniaeth	Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
Ysgol 2018/19	399	44	41	43	46
Ardal 2018/19	..	42	40	41	..
Cymru 2018/19	..	39	37	37	..
Ysgol 17/18/19	..	45	41	44	..
Ysgol 16/17/18

Nifer y bechgyn yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2019 : 42

Sgôr pwyntiau cyfartalog fesul bachgen:

	Mesur Capio 9 (interim)	Y mesur llythrennedd	Y mesur rhifedd	Y mesur gwyddoniaeth	Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
Ysgol 2018/19	385	43	40	42	44
Ardal 2018/19	..	40	39	39	..
Cymru 2018/19	..	36	36	35	..
Ysgol 17/18/19	..	43	40	43	..
Ysgol 16/17/18

Nifer y merched yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2019 : 42

Sgôr pwyntiau cyfartalog fesul merch:

	Mesur Capio 9 (interim)	Y mesur llythrennedd	Y mesur rhifedd	Y mesur gwyddoniaeth	Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
Ysgol 2018/19	413	46	42	45	49
Ardal 2018/19	..	45	41	43	..
Cymru 2018/19	..	42	38	38	..
Ysgol 17/18/19	..	48	43	46	..
Ysgol 16/17/18

(1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler gwefan Cymwysterau Cymru (QiW) <http://www.qiw.wales/>

(2) Am fanylion ar gyfrifo'r dangosyddion hyn gweler y nodyn cyfarwyddyd yn:
<https://llyw.cymru/trefniadau-interim-perfformiad-ysgolion-yng-nghyfnod-allweddol-4>

.. Data ddim ar gael.

CYFNOD ALLWEDDOL 5

Ysgol Bro Teifi

Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol (1)

2019

Rhif ALI/Ysgol 667 / 5502

Disgyblion 17 oed

	Nifer y disgyblion 17 oed a oedd ar y gofrestr yn		Nifer y bechgyn 17 oed a oedd ar y gofrestr yn		Nifer y merched 17 oed a oedd ar y gofrestr yn	
	Ionawr 2019:	58	Ionawr 2019:	32	Ionawr 2019:	26
	Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o ddysgu yn gyfartal i 2 lefel A ac yn ennill y throthwy Lefel 3	Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl 17 oed	Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o ddysgu yn gyfartal i 2 lefel A ac yn ennill y throthwy Lefel 3	Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl 17 oed	Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o ddysgu yn gyfartal i 2 lefel A ac yn ennill y throthwy Lefel 3	Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl 17 oed
Ysgol 2018/19	96	805	100	750	92	873
Ardal 2018/19	99	792	99	720	98	857
Cymru 2018/19	98	734	97	682	98	777
Ysgol 17/18/19	98	830	100	754	96	889
Ysgol 16/17/18	99	864	100	795	99	903
	Cyflawni 3 neu fwy lefel A gradd A*-A neu cyfatebol	Cyflawni 3 neu fwy lefel A gradd A*-C neu cyfatebol	Cyflawni 3 neu fwy lefel A gradd A*-A neu cyfatebol	Cyflawni 3 neu fwy lefel A gradd A*-C neu cyfatebol	Cyflawni 3 neu fwy lefel A gradd A*-A neu cyfatebol	Cyflawni 3 neu fwy lefel A gradd A*-C neu cyfatebol
Ysgol 2018/19	19	60	13	48	27	73
Ardal 2018/19	17	63	9	52	24	73
Cymru 2018/19	13	58	11	50	14	63
Ysgol 17/18/19	15	68	14	55	16	78
Ysgol 16/17/18	10	59	14	50	7	64

(1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfranlad at y throthwy, gweler gwefan Cymwyst (QIW) <http://www.qiw.wales/>

.. Data ddim ar gael.

5. Ffigurau Presenoldeb – Blwyddyn Academaidd 2018-2019

	Presenoldeb	Absenoldeb awdurdodedig			Absenoldebau Anawdurdodedig		
		Merched	Bechgyn	Cyfanswm	Merched	Bechgyn	Cyfanswm
Cynradd	95.7	2.7	3.4	3.0	1.4	1.1	1.3
Uwchradd	94.3	4.0	4.4	4.2	1.2	1.7	1.5
Ffês 1	95.8	2.7	3.3	3.0	1.2	1.1	1.1
Ffês 2	94.8	3.5	4.0	3.7	1.4	1.4	1.4
Ffês 3	94.2	4.1	4.6	4.4	1.1	1.8	1.4
Ysgol Gyfan	94.8	3.5	4.1	3.8	1.3	1.5	1.4

Gwerthusiad o Bresenoldeb:

Yn 2018/19 gwelwyd cynnydd yn y canran presenoldeb ymysg disgyblion oed cynradd o 95.0% i 95.7% (data heb ei wirio). Mae hwn yn gynnydd sylweddol ac yn dda. Fodd bynnag, am yr ail flwyddyn yn olynol, syrthiodd presenoldeb disgyblion oed uwchradd o 94.8% i 94.3%. Ar yr un pryd, gwelwyd cynnydd yn y canran o absenoldebau anawdurdodedig o 0.6 i 1.5%. Mae'r canran presenoldeb uwchradd yn ein gosod am yr ail flwyddyn yn olynol yng nghwartel meincnodi 3. Yn 2018/19 gwelwyd ychydig o gynnydd yn y canran o ddisgyblion ar fandiau presenoldeb llai na 80% a rhwng 90 a 94.99% ond roedd mwy o ddisgyblion yn y band 95% a throsodd o'i gymharu a llynedd. Mae'r disgyblion sydd yn llai na 80% yn cael effaith sylweddol ar y ffigur presenoldeb cyfartalog. Mae'r ysgol parhau i fonitro a herio yn gyson pan cwyd consyrn am bresenoldeb disgyblion.

Mae'n bolisi ysgol i beidio a chaniatáu gwyliau adeg tymor oni bai mewn amodau eithriadol iawn. Mae caniatáu unrhyw gyfnod o'r ysgol at ddisgresiwn y Pennaeth.

6. Darpariaeth chwaraeon yn yr Ysgol a'r ddarpariaeth a wnaed ar gyfer gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol:

Unwaith eto eleni, cafwyd cryn lwyddiant ar y caeau chwarae gydag unigolion a thimoedd yr ysgol yn cystadlu ac yn ennill ar lefel lleol, sirol a chenedlaethol.

Disgyblion Oed Cynradd

Bu holl ddisgyblion CA2 yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Chwaraeon Potes yr Urdd a braf oedd cael y cyfle i gymysgu gyda gweddill ysgolion y Cylch. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn cymysgu a gwneud ffrindiau newydd tra yn mwynhau allan yn yr awyr agored.

Roedd Mis Mai yn fis hynod o brysur i ddisgyblion bl 3 a 4 . Llwyddodd y tîm criced 50/50 i gipio'r ail safle yn nghystadleuaeth Urdd Ceredigion cyn mynd ymlaen wedyn i gynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth criced 50/50 Sir Gâr gan ddod yn y drydedd safle.

Cafwyd llwyddiant ysgubol hefyd gan dîm Merched a bechgyn blwyddyn 4 wrth iddynt ennill twrnament tennis Ceredigion. Dyma'r tro cyntaf iddynt gystadlu – da iawn !

Yr un oedd y llwyddiant i flynyddoedd 5 a 6. Yn dilyn llwyddiant yng nghystadleuaeth rygbi TAG y merched nol yn mis Hydref roedd tîm y merched yn cynrychioli'r Sir yng nghystadleuaeth Rygbi Tag Cenedlaethol yr Urdd ar ddydd Sul braf yn Aberystwyth. Ar ôl cystadlu brwd yn erbyn timoedd da iawn llwyddodd y merched i gyrraedd y ffeinal a chipio'r wobwr gyntaf gan ennill y teitl ' Pencampwyr Cenedlaethol Rygbi Tag i Ferched yr Urdd'. Gwych!

Roedd aelod o'r tîm rygbi wedi bod yn cystadlu yng nghystadleuaeth trawsgwlad cenedlaethol yr Urdd a llwyddodd Amelia Williams i gipio'r wobwr gyntaf yn ras trawsgwlad i ferched bl 5.

Mynychodd nifer o ddisgyblion CA2 twrnnameintiau pêl droed yn y gymuned. Bu dros 50 o ddisgyblion yng nghystadleuaeth pêl droed Llanfihangel. Enillodd tîm bl 4 a thîm bl 5 a 6. Er i'r ddau dîm wneud yn arbennig o dda yn nhwrnamaint Saron – colli yn y gemau cyn derfynol oedd hanes y ddau dîm.

I orffen y flwyddyn cynhaliwyd diwrnod llwyddiannus iawn i holl ddisgyblion oed cynradd yn niwrnod mabalgampau'r ysgol. Cafwyd wledd o gystadlu gyda phob un disgybl yn cymryd rhan. Fel gwobr am gystadlu derbyniodd pob un o ddisgyblion oed cynradd potel ddŵr a oedd yn roddedig gan Gyfeillion Ysgol Bro Teifi.

Disgyblion Oed Uwchradd

Roedd y tîm hoci dan 16 yn bencampwyr Ceredigion ac wedi cynrychioli'r sir yn Nhwrnamaint Dyfed. Cystadlodd yr ysgol yn nhwrnamaint newydd Cwpan Hoci Cymru Dan 12 a chyrraedd rownd De Cymru yn Abertawe.

Cafwyd cryn lwyddiant ar y caeau rygbi hefyd. Cystadlodd tîm merched 7 bob ochr Dan 15 yng Nghystadleuaeth yr Urdd yng Nghaerdydd a chyrraedd ffeinal y Plât, gan golli yn agos i

Ysgol Y Berwyn. Eleni, y merched Dan 18 cafodd y cyfle i gystadlu ym Mharc Roslyn fel rhan o gystadleuaeth genedlaethol 7 bob ochr.

Cafodd Steffan Owen Evans Bl 13 ei ddewis i gynrychioli Cymru yng Nghwpan y Byd Rygbi Cyffwrdd mis Ebrill a dewiswyd Ellie Tromans Bl 11 a Chloe Evans Bl 11 i garfan rygbi'r Sgarlets Dan 18. Yn ogystal, cafodd Ellie Tromans ei dewis i garfan Cymru. Roedd Aled Sion Davies a Dylan Davies yn rhan o garfan rygbi'r Sgarlets Gyfunol Dan 16. Yn ogystal, gwnaeth Steffan Evans gynrychioli ei wlad fel rhan o dîm Rygbi Cyffwrdd Cymru.

Cystadlodd chwe tîm pêl-droed yng nghystadleuaeth Cwpan Ysgolion Cymru eleni. Cyrhaeddodd Merched Dan 13 rownd gynderfynol gan golli 1-0 yn erbyn Ysgol Glan Clwyd. Gwnaeth tîm bechgyn Dan 18 gyrraedd chwarteri'r gystadleuaeth. Roedd Elin Jones Bl 8 wedi ei dewis i garfan pêl-droed Merched Dan 15 Cymru. A hefyd Grace Morris Bl 11 wedi ei dewis i garfan Merched Dan 17 Cymru. Cafwyd llwyddiant yn nhwrnamaint pêl-droed 7 bob ochr yr Urdd, gyda thimoedd merched bl 7 a 8 yn dod yn dod yn ail a bechgyn bl 7 a 8 yn ennill.

Cafwyd taith sgïo lwyddiannus i Le Corbier, Ffrainc gyda 52 o ddisgyblion yn cael y cyfle i brofi a datblygu ei sgiliau sgïo.

Unwaith eto eleni, gwnaeth nifer o ddisgyblion gystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd, yn Aberystwyth, gyda Dafydd Jones Bl 7 ac Emily Jones Bl 13 yn cyrraedd y gystadleuaeth Genedlaethol yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau mawr i Dafydd am ddod yn drydydd yn y ras dull rhydd i fechgyn.

Gwnaeth Leisa Thomas Bl 7, Heledd Jones Bl 11 a Seren Davies Bl 7 gynrychioli Dyfed yng nghystadleuaeth trawsgwlad Cymru yn Ionawr.

Cynhaliwyd Eisteddfod Ddawns ym Mro Teifi eleni eto, gyda chystadlu brwd trwy'r bore a thalent aruthrol yn cael ei arddangos.

Roedd nifer o'n hathletwyr yn llwyddiannus ym mabolgampau Ceredigion, gyda nifer o ddisgyblion yn cynrychioli Ceredigion ym Mehefin, ym Mabolgampau Dyfed, yng Nghaerfyrddin.

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol eleni ym mis Mehefin, gydag Emlyn yn dod i'r brig eleni. Pencampwyr lau'r ysgol oedd Elin Jones Bl 8 (Tysul) ac Osian Taylor Bl 7 (Emlyn), a'r Pencampwyr Hŷn oedd Sara-Louise Davies Bl 12 (Emlyn), a Llyr Davies Bl 10 (Tysul).

Cafwyd tridiau o weithgareddau awyr agored i flwyddyn 8 ar ddechrau mis Gorffennaf yn y Paddlers yn Llandysul.

Roedd Osian Davies Bl 13 wedi ei dderbyn fel Llysgennad Ifanc Ceredigion y flwyddyn. Roedd Osian yn Llysgennad Platinwm.

Mae nifer o'n disgyblion wedi profi llwyddiant ysgubol tu allan i'r ysgol yn eu meysydd arbenigol. Cafodd Lili Bryant Bl 11 a Finlay Yates Jones Bl 11 eu dewis fel eilyddion i dîm Canŵio Slalom y Deyrnas Unedig. Roedd Leia Vobe Bl 8 wedi ei dewis i gynrychioli Cymru yn twmblo Dan 14. Roedd Cadan Pearce Bl 9 yn rhan o garfan Hwyllo Cymru a chyrraeddodd Bethany Nelson tîm Karate Dan 16 Cymru.

ADRAN 2 – ADRODDIAD BLYNYDDOL LLAWN

1. Aelodaeth y Corff Llywodraethol

Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn gyfredol:	Mr Gethin Jones
Is-Gadeirydd am y flwyddyn gyfredol:	Mrs Lynsey Thomas
Llywodraethwr a Chyfrifoldeb Dros Amddiffyn Plant	Mrs Lynsey Thomas

Aelodaeth y Corff Llywodraethol:

ENW	SWYDDOGAETH	DYDDIAD GORFFEN
Mr Bleddyn Davies	ALI	01/09/2020
Cyng. Ken Howell	ALI	01/09/2020
Cyng. Keith Evans	ALI	09/05/2021
Cyng. Wyn Thomas	ALI	09/05/2021
Gwag	ALI	
Mrs Diana Davies	Rhiant	16/09/2020
Parch. Gareth Reid	Rhiant	16/09/2020
Mrs Lynsey Thomas	Rhiant	16/09/2020
Miss Llinos Dafydd	Rhiant	16/09/2020
Mrs Llinos Davies	Rhiant	13/12/2022
Mrs Rhian Jardine	Cymunedol	01/09/2020
Mr Gerwyn James	Cymunedol	01/09/2020
Cyng. Eileen Curry	Cymunedol	19/09/2020
Mr Gethin Jones	Cymunedol	01/09/2020
Parch. Aled Jones	Cymunedol	06/01/2022
Miss Carys Williams	Athrawes	19/09/2020
Mrs Nia Lloyd-Evans	Athrawes	20/09/2020
Mrs Delyth Evans	Staff	02/10/2022
Mr Robert Jenkins	Pennaeth	

Clerc i'r Corff Llywodraethol:

Mrs Angela Jones
Rheolwr Gwasanaethau Cleient Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3U

2. Datganiad Ariannol Llawn ar gyfer y flwyddyn flaenorol

Costau'r Gweithwyr	£3,219,977
Costau'r Adeilad	£461,548
Costau Cludiant	£29,835
Nwyddau a Gwasanaethau	£734,365
Gwariant Gros	£4,445,725
Incwm	-£704,845
Gwariant Net	£3,740,880
Ariannu yn ôl Fformiwla 16/17	£3,734,785
Gweddill c/d 1 Ebrill 2018	£313,670
Cyfanswm	£4,048,455
Cyfanswm Arian Wrth Gefn Ebrill 2019	£307,575

3. Defnydd y Grant Datblygu Disgyblion

Yn 2018-19 rhoddwyd i Ysgol Bro Teifi ddyraniad Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Datblygu Disgyblion Blynnyddoedd Cynnar o £51,800.

Roedd gennym gynllun gwariant cynhwysfawr, oedd yn cael ei fonitro gan Awdurdod Lleol Ceredigion, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Targedu ymyrraeth ar gyfer hyrwyddo lles a medrau allweddol disgyblion drwy'r defnydd o grŵp maethu i ddisgyblion CA2.
- Cynllunio darpariaeth Defnydd o Iaith Gymdeithasol (SULP) er mwyn delio ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol Ffês 2 a 3.
- Hybu mynediad disgyblion at brofiadau all-gwricwlaidd cyfoethog gan gynnwys talu'n rhannol at gostau teithiau addysgol.
- Cefnogi rhieni drwy dalu'n rhannol at gostau gwersi offerynnol
- Ychwanegu capasiti cwnsela pellach i'r ysgol.

4. Cyrchfannau y Disgyblion sydd yn ymadael

Ysgolion Cynradd:

Nifer y Disgyblion sydd yn gadael ar gyfer Ysgol Uwchradd ar ddiwedd y Flwyddyn Academaidd flaenorol:	55
---	----

Yr Ysgol(ion) Uwchradd a'r nifer sydd yn mynychu:	Ysgol Bro Teifi	52	Ysgol Emlyn	3	Eraill	0
---	-----------------	----	-------------	---	--------	---

Ysgolion Uwchradd:

Nifer y Disgyblion sydd yn gadael ar ddiwedd y Flwyddyn Academaidd flaenorol:	56
Nifer y Disgyblion sydd yn gadael am:	
Prifysgol	42
Prentisiaeth	2
Coleg	6
Gweithio	4
Cam wrth Gam	1

5. Cysylltiadau gyda'r Gymuned

Mae ein hysgol yn chwarae rhan bwysig iawn yn y gymuned leol a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys cymuned yr ysgol, y gymuned ble lleolir yr ysgol ynghyd a gweddi Cymru a thramor. Yn ogystal, y mae'r ysgol wedi bod yn rhan o rwydweithiau proffesiynol lle rhoddir pwyslais ar gydweithio gydag ysgolion eraill ar brosiectau penodol ee Rhwydwaith Ysgolion 3-19 Cymru er datblygu gwell dealltwriaeth o arfer orau yn y sector. Rydym yn sicrhau fod cwricwlwm ac ethos yr ysgol yn hybu'r syniad o hunaniaeth a chefnogi amrywiaeth, gan ddangos i'r disgyblion y gall gwahanol gymunedau weithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu cymdeithas lwyddiannus ee ymweliadau i wledydd tramor fel ymweliadau i Unol Daleithiau America a Gwlad yr Iâ. Drwy wneud hyn mae'r ysgol yn hyrwyddo:

- Datblygu partneriaethau er mwyn rhannu arfer dda ac i gynnig cyfleoedd i'n disgyblion ddysgu oddi wrth ddisgyblion o gefndiroedd tra gwahanol.
- Cysylltiadau gyda chynlluniau gwaith sy'n bodoli eisoes, gyda disgyblion yn gweithio ar brosiectau ar y cyd.
- Defnyddio adnoddau ar y cyd gan roi cyfleoedd i wahanol ddisgyblion i ryngweithio.
- Cysylltiadau gydag ysgolion tu allan i'r gymuned leol.

Mae cysylltiadau eraill o fewn ein cymuned yn cynnwys:

- Gwasanaethau brys – sesiynau gan Swyddogion Cymunedol yr Heddlu sy'n cynnwys cyffuriau ac alcohol, defnydd diogel o'r we, diogelwch ar y fferm, diogelwch glan môr a gweithdy gan y Frigâd Dân.
- Cysylltiadau gyda rhieni – ee cynorthwyo gyda'r mabolgampau cynradd, sefydlu a rhedeg Cyfeillion Ysgol Bro Teifi gweithgar ayyb.
- Cysylltiadau gyda sefydliadau addysgiadol megis ysgolion y clwstwr, Cylch Meithrin, Coleg Ceredigion, Coleg Sir Gâr, Erw, Prifysgol Aberystwyth, ayyb.
- Ymweliadau addysgiadol: Amgueddfa Wlân Drefach, Pentrebach ayyb.
- Cysylltiadau gyda'r celfyddydau – Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro, Eisteddfod yr Urdd, Arad Goch ayyb.
- Ymweliad ag adeiladau yn ein cymuned – eglwysi, capeli, cartrefi hen bobl, llyfrgell ayyb.

6. Targedau ar gyfer gwelliant a osodwyd gan y Corff Llywodraethol

Blaenoriaethau 2018-2019

Blaenoriaeth 1 – Cyfoethogi profiadau cwricwlaidd disgyblion ar draws yr ystod oed

Blaenoriaeth 2 – Gwella safonau Mathemateg a Rhifedd

Blaenoriaeth 3 – Gwreiddio'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Blaenoriaeth 4 – Gwella cynnydd disgyblion drwy fireinio prosesau adborth a marcio

Blaenoriaeth 5 – Gweithredu'r safonau proffesiynol newydd yn effeithiol

Blaenoriaethau 2019-2020

Blaenoriaeth 1 – Sicrhau arferion addysgeg cytûn wrth baratoi ar gyfer dyfodiad Cwricwlwm i Gymru

Blaenoriaeth 2 – Datblygu ymagwedd 'Sefydliad sy'n Dysgu'

Blaenoriaeth 3 – Codi safonau a chymhelliant bechgyn ar draws yr ysgol

Blaenoriaeth 4 – Gwreiddio'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Blaenoriaeth 5 – Gweithredu gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd

7. Polisiâu / Strategaethau a fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol:

O ganlyniad i sefydlu Ysgol Bro Teifi o'r newydd ym Medi 2016, mabwysiadodd y Corff Llywodraethol yr holl bolisiâu a dogfennaeth strategol angenrheidiol yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod 2018-2019, adolygwyd y polisiâu a chanllawiau canlynol:

- Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Polisi Anghenion Meddygol
- Polisi Anghenion Gofal Iechyd
- Polisi Ymddygiad a Lles
- Polisi Amddiffyn Plant / Diogelu
- Polisi Cyflog Athrawon
- Polisi Cwricwlwm
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Cydraddoldeb

8. Dyddiadau Tymor ac Amser Sesiynau

TYMOR YR HYDREF		
04.09.19	hyd	20.12.19
Hanner Tymor – 28.10.19-1.11.19		
Dyddiadau Cau i Ddisgyblion		
02.09.19		
03.09.19		
25.10.19		
Gwyliau Nadolig 23.12.19 – 03.01.20		

TYMOR Y GWANWYN		
06.01.20	hyd	03.04.20
Hanner Tymor – 17.02.20-21.02.20		
Gwyliau Pasg 06.04.20 – 17.04.20		

TYMOR YR HAF		
21.04.20	Hyd	17.07.20
Hanner Tymor – 25.05.20-29.05.20		
Dyddiadau Cau i Ddisgyblion		
20.04.20		
Ysgol ar gau		
08.05.20 (Gŵyl y Banc)		

Nodwch, os gwelwch yn dda, fod y calendr hwn yn amodol ar unrhyw newidiadau o ganlyniad i bolisiâu Cyngor Sir Ceredigion. Nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am gollodion mewn perthynas â threfniadau gwyliau o ganlyniad i'r fath newidiadau.

9. Newidiadau i Brosbectws yr Ysgol ers Llynedd

Ychwanegwyd y rhannau canlynol i'r prosbectws:

- Diogelwch staff a disgyblion
- Cyfleoedd allgyrsiol i ddisgyblion
- Gyrfaoedd, addysg byd gwaith a chyrchfannau
- Hygyrchedd

10. Y Cwricwlwm

Mae ein cwricwlwm yn sicrhau bod pob dysgwr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned ein hysgol, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol. Mae ein cwricwlwm yn un cytbwys ac eang, ac yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, yn ogystal datblygu lles meddyliol a chorfforol ein disgyblion; ein nod ydy eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.

O oed Meithrin hyd at ddiwedd Blwyddyn 2, bydd eich plentyn yn dilyn cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Yn ystod y cyfnod yma mi fydd yn astudio'r meysydd canlynol:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

Yng nghyfnodau Allweddol 2 a 3 (Blynyddoedd 3 i 9) bydd eich plentyn yn astudio'r pynciau canlynol:

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Technoleg, Technoleg Gwybodaeth, Astudiaethau Crefyddol, Daearyddiaeth, Ffrangeg (o Flwyddyn 5 ymlaen), Hanes, Addysg Gorfforol, Addysg Personol a Chymdeithasol, Celf, Cerdd, Drama

Yng nghyfnod allweddol 4 (Blynyddoedd 10 ac 11), mae pob disgybl yn astudio'r pynciau canlynol:

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Astudiaethau Crefyddol, Chwaraeon, Bagloriaeth Cymru

Yn ogystal, gall y disgyblion ddewis o'r pynciau isod:

Addysg Gorfforol, Amaethyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol, Astudiaethau Cyfryngau, Busnes, Celf a Dylunio, Cerdd, Daearyddiaeth, Datblygiad y Plentyn, Drama, Gwyddoniaeth Driphlyg, Ffrangeg, Hamdden a Thwristiaeth, Hanes, Peirianeg, Technoleg (Bwyd a Maeth, Deunyddiau Gwrthiannol a Thecstilau), Technoleg Gwybodaeth

Yng nghyfnod allweddol 5 (Blynyddoedd 12 ac 13), gall ein disgyblion ddewis o'r pynciau canlynol:

Addysg Gorfforol, Amaethyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol, Bioleg, Busnes, Celf a Dylunio, Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth), Celf a Dylunio (Tecstilau), Cemeg, Cerddoriaeth, Cyfryngau, Cymraeg, Daearyddiaeth, Drama ac Astudiaethau Theatr, Dylunio a Thechnoleg, Dylunio a Thechnoleg (Bwyd), Electroneg, Ffiseg, Ffrangeg, Gwaith Gôf, Gwasanaethau Cyhoeddus, Gwyddor Feddygol, Hanes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Mathemateg, Mathemateg Bellach, Peirianeg, Saesneg, Seicoleg, Teithio a Thwristiaeth, Bagloriaeth Cymru.

Darpariaeth i Ddisgyblion ADY:

Prif nod y ddarpariaeth addysg arbennig yn yr ysgol yw sicrhau bod ein holl ddisgyblion yn cyrraedd eu potensial o fewn awyrgylch cynhaliol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig yn Ysgol Bro Teifi yn ateb gofynion Côt Ymarfer Cymru. Mae pob disgybl sydd wedi ei gofnodi ar gofrestr addysg arbennig yr ysgol yn derbyn cynhaliaeth o ryw fath, naill o fewn y brif ffrwd, mewn grwpiau bychain neu cefnogaeth 1 i 1. Ymdrechwn i adnabod anawsterau dysgu yn gynnar gan ddarparu cefnogaeth emosiynol effeithiol lle bo angen. Wrth i'n disgyblion ddechrau ar eu cyfnod addysg uwchradd bydd disgyblion yn cael eu hasesu yn ystod tymor y Nadolig ym Mlwyddyn 7 er mwyn sicrhau bod unrhyw blentyn sydd yn cael trafferth gyda sgiliau llythrennedd neu rifedd yn cael ei nodi ac yna yn derbyn y sylw priodol. Pan fydd disgybl yn cyrraedd safon benodedig, nid oes angen iddo fynychu'r grwpiau bellach.

Mae gan y tîm o gynorthwyr brofiad helaeth o weithio gyda disgyblion â gwahanol broblemau megis problemau dysgu, corfforol, problemau gweledol neu glyw, ymddygiad, a.y.b. ac maent yn derbyn hyfforddiant pellach pan fydd angen. Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol penodol yn cael sylw gan athrawes brofiadol yn y maes.

Yn ein hysgol, mae'r ddarpariaeth Hafan ac Encil yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn a'u hymddygiad. Mae'r Hafan ac Encil yn rhan hanfodol o weithdrefnau rheoli ymddygiad yr ysgol ac mae'r polisi hwn yn sicrhau bod gennym dealltwriaeth glir o bwrpas a gweithrediad y ddarpariaeth wrth i ni fel cymuned ysgol cefnogi anghenion emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol y disgyblion yn ein gofal.

11. Iaith

Categori iaith yr Ysgol:	Cynradd – Cyfrwng Cymraeg Uwchradd – Dwyieithog 2A
<p>Y Gymraeg ydy prif gyfrwng holl fywyd a gwaith Ysgol Bro Teifi gyda'r nod o sicrhau bod pob disgybl yn medru'r ddwy iaith yn drylwyr hyd at eithaf ei allu / gallu erbyn gadael yr ysgol. Mae Ysgol Bro Teifi yn gweithredu ar yr amcanion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• sicrhau bod pob disgybl yn datblygu'n naturiol yn y ddwy iaith.• meithrin ymwybyddiaeth a balchder yn niwylliant, traddodiadau ac etifeddiaeth Cymru ymysg ein disgyblion a fydd yn sail i ehangu eu gorwelion, eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o gydberthynas Cymru ag Ewrop a'r byd.• galluogi ein disgyblion i gynnig am swyddi lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol neu'n fanteisiol.	

12. Cyfleusterau Toiledau (gan gynnwys trefniadau glanhau)

Mae cyfleusterau toiledau'r ysgol mewn cyflwr rhagorol ac yn cael eu glanhau'n ddyddiol gan gwmni Ultima

13. Bwyta ac Yfed Iach

Mae gennym ddull effeithiol o hyrwyddo bwyd a ffitrwydd gan ein bod yn ymwybodol bod diet a gweithgarwch corfforol yn cael effaith gadarnhaol ar les corfforol, meddyliol ac emosiynol y disgyblion.

Credwn fod gennym ddyletswydd i annog pawb yn y gymuned i fyw bywydau egniol a iach trwy ddarparu gwybodaeth a sgiliau i sefydlu a chynnal ffyrdd o fyw iachus gydol oes ynghyd ag arferion bwyta'n iach.

Rydym yn sicrhau fod y bwyd a ddarperir yn yr ysgol yn iach ac yn hyrwyddo ffordd iach o fyw. Yn ogystal, rydym wedi ymrwmo i ddarparu gwersi Addysg Gorfforol o ansawdd uchel ynghyd a sesiynau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae'r gegin yn cydymffurfio â rheoliadau Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau bod yr holl giniawau yn faethlon. Mae'r gegin wedi cael ei graddio fel 5 seren ar gyfer glanweithdra a hylendid.

Rydym yn annog rhieni i ddarparu bocsys bwyd a byrbrydau iach i'w plant pan fyddant yn yr ysgol.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn mabwysiadu'r canlynol i hyrwyddo ffordd iach o fyw:

- Gweithgarwch corfforol o fewn y cwricwlwm
- Nofio i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2
- Clybiau gweithgaredd corfforol allgyrsiol
- Addysg awyr agored
- Prydau ysgol
- Bwyd a maeth yn y cwricwlwm
- Clwb brechwast iach
- Llaeth ysgol am ddim i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen

DEISEB RHIENI A CHYFARFODYDD

Mae Deddf Safonau a Thrafnidiaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu trefniadau newydd sydd yn galluogi rhieni i ofyn am gyfarfod gyda'r Corff Llywodraethol. Bydd angen i rieni gyflawni pedwar gofynion statudol wrth ofyn am gyfarfod, sy'n cynnwys:

1	Dylid deiseb cael ei chyflwyno gyda llofnod 10% o ddisgyblion cofrestredig neu rieni 30 o ddisgyblion cofrestredig (pa bynnag yw'r isaf).
2	Rhaid i bwrpas y cyfarfod bod i drafod materion sy'n berthnasol i'r ysgol.
3	Uchafswm o gyfarfodydd gall rieni alw mewn blwyddyn ysgol ydy tri (3).
4	Rhaid bod digon o ddyddiau ysgol fod ar ôl mewn blwyddyn i gynnal cyfarfod.

Mae gofynion statudol ychwanegol ynghylch y cyfarfod yn cynnwys:

1	Rhaid i'r Cyfarfod cael ei gynnal o fewn 25 diwrnod ysgol o dderbyn y deiseb.
2	Mae cyfnod y 25 diwrnod yn dechrau y diwrnod ar ôl derbyn y deiseb.
3	Os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod 25 diwrnod hwnnw yn dechrau tan y diwrnod ar ôl i'r gyfarfod arall cael ei gynnal.
4	Bydd y cyfarfodydd yn agored i holl rieni o ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw berson arall caiff eu gwahodd gan y Corff Llywodraethol.
5	Rhaid i hysbysiad o gyfarfodydd i rieni gynnwys y dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod a'r mater(ion) i'w trafod.

Rhaid i'r Corff Llywodraethol hysbysu'r rhieni'n flynyddol am yr hawl i gyflwyno deiseb am gyfarfod gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir gan Adran 94.

Am ragor o wybodaeth fanwl ar y gofyniad statudol, deisebau a gweithdrefnau am gynnal cyfarfod, dilynwch y linc hon: https://llyw.cymru/cyfarfod-rhieni-canllawiau-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu?_ga=2.17547129.1770170168.1579361691-167796174.1574373318